

226/02

LLENYDDIAETH GYMRAEG

HAEN UWCH

A.M. DYDD IAU, 25 Mai 2006

(2 awr)

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfrynn ateb 12 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **ddau** gwestiwn, **un** cwestiwn o Adran A (Barnddoniaeth), ac **un** cwestiwn o Adran B (Nofel).

Defnyddiwch yr indecs isod i ddod o hyd i'r cwestiwn ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 25 marc am bob cwestiwn cyfan. Dangosir hyn yn glir ar waelod pob cwestiwn (ynghyd â'r marciau am is-gwestiynau).

Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Tudalen

ADRAN A – BARNDONIAETH	2
ADRAN B – NOFEL	3
AC YNA CLYWODD SWN Y MÔR (Alun Jones)	4
I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn)	6
Y STAFELL DDIRGEL (Marion Eames)	8
WELE'N GWAWRIO (Angharad Tomos)	10

ADRAN A – BARDDONIAETH

Atebwch un cwestiwn o'r adran hon.

THEMÂU: NATUR; IEUENCTID A BYWYD CYFOES;
RHYFEL A THRAIS; PIGO CYDWYBOD; CYMRU A CHYMREICTOD
(o'r cyfrolau *Sbectol Inc a Hoff Gerddi Cymru*)

Naill ai,

1. Ystyriwch y gerdd ‘**Hon**’.

- (a) Nodwch i ba thema y mae'r gerdd yn perthyn ac enwch y bardd. [1]
 - (b) Yn eich geiriau eich hun, nodwch yr hyn y mae'r bardd yn ei ddweud yn y gerdd. Cofiwch ddyfynnu o'r gerdd. [5]
[2]
 - (c) Dyfynnwch **ddarn** o'r gerdd sy'n drawiadol yn eich barn chi.
Pa **effaith** y mae'r dyfyniad hwn yn ei gael arnoch chi? [3]
 - (ch) Dewiswch **bedair** nodwedd arddull **wahanol** o'r gerdd. Dylech
 - eu henwi;
 - dyfynnu enghraifft o'r pedair nodwedd;
 - egluro eu pwrrpas a'u llwyddiant.
 Gallwch gyfeirio at nodweddion megis sŵn geiriau, ansoddeiriau, trosiad, mesur, cyferbynnu, cymhariaeth/cyffelybiaeth ac ati. [8]
 - (d) **Cymharwch** gerdd ‘**11.12.82**’ â cherdd ‘**Etifeddiaeth**’ gan ysgrifennu am:
 - neges y ddwy gerdd;
 - y modd y mae'r beirdd yn trosglwyddo'r neges honno.
 Cofiwch ddyfynnu'n bwrrpasol o'r **ddwy** gerdd. [6]
- [25]

Neu,

2. Dewiswch **ddwy** gerdd, un o thema **Rhyfel a Thrais** ac un o thema **Pigo Cydwybod**, a wnaeth i chi deimlo'n ddigalon.

- (a) Nodwch enwau'r cerddi. [1]
 - (b) Yn eich geiriau eich hun, nodwch yr hyn y mae'r beirdd yn ei ddweud yn eu cerddi. Rhaid trafod **agwedd** y bardd at ei destun yn y **ddwy** gerdd.
Ysgrifennwch baragraff ar wahân i bob cerdd. [5]
[2]
 - (c) Dyfynnwch **ddarn** o **un** o'r cerddi sy'n gwneud i chi deimlo'n ddigalon.
Pa **effaith** y mae'r dyfyniad hwn yn ei gael arnoch chi? [3]
 - (ch) Dewiswch **bedair** nodwedd arddull **wahanol** o **un** o'r cerddi. Dylech
 - eu henwi;
 - dyfynnu enghraifft o'r pedair nodwedd;
 - egluro eu pwrrpas a'u llwyddiant.
 Gallwch gyfeirio at nodweddion megis sŵn geiriau, ansoddeiriau, trosiad, mesur, cyferbynnu, cymhariaeth/cyffelybiaeth ac ati. [8]
 - (d) Dewiswch **gerdd arall** o unrhyw thema a roddodd deimlad o **obaith** i chi.
Ysgrifennwch am:
 - neges y gerdd a'ch rheswm dros ei dewis;
 - y modd y mae'r bardd yn trosglwyddo'i neges.
 Cofiwch ddyfynnu'n bwrrpasol o'r gerdd. [6]
- [25]

ADRAN B – NOFEL

Atebwch un cwestiwn o'r adran hon.

AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR - Alun Jones

3. Darllenwch y darn a gymerwyd o **Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr**. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n briodol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

- (a) Sut gymeriad yw Gareth Hughes?
Rhowch dystiolaeth o bob rhan o'r nofel. [5]
- (b) Eglurwch bwysigrwydd Gladys Drofa Ganol i blot ac adeiladwaith y nofel. [4]
- (c) Dewiswch **dair** nodwedd arddull **wahanol**. Dylech
 - eu henwi;
 - dyfynnu enghraifft o'r tair nodwedd;
 - egluro eu pwrrpas a'u llwyddiant.

Gallwch gyfeirio at nodweddion megis ansoddeiriau, cyffelybiaethau / cymariaethau, trosiadau, hyd brawddegau, cyferbyniadau, deialog, sŵn geiriau ac ati. [6]

- (ch) Dychmygwch mai chi yw **Richard Jones**.
Ysgrifennwch ei **ymsion** ef wrth iddo ddianc ar ddiwedd y nofel.
Ceisiwch ysgrifennu tua dwy dudalen. [10]

[25]

Peth rhyfedd i ddau beth mor debyg i'w gilydd ddigwydd yr un bore, meddyliai Gareth Hughes wrth ddychwelyd i Hirfaen yn y fen. Gweld dau ddyn, a chael y syniad ei fod wedi eu gweld o'r blaen, ond heb wybod ym mhle. Yn gyntaf, y dyn hwnnw a gyfarfu ar waelod Allt Ceris pan oedd yn mynd am Benerddig. Dim ond cip a gafodd yr heddwlas arno wrth iddo fynd heibio'n y niwl, ond yr oedd yn siŵr ei fod yn adnabod yr wyneb, a bod cysylltiad rhyngddo â rhywbeth neu'i gilydd, yn ymwneud rywfodd â Hirfaen. Ac wedyn, y sargent yn dangos y llun iddo ym Mhenerddig, llun dyn yr oedd wedi ei weld o'r blaen, ond yn ei fyw ni allai gofio ym mhle na pha bryd.

Efallai mai'r un dyn oedd y ddau. Na, go brin. Ni fedrai'n ei fyw gofio sut gar oedd gan y dyn a welodd ar Allt Ceris, ond yr oedd rhyw debygrwydd rhwng y dynion erbyn meddwl, os nad oedd ei ddychymyg ef yn mynnu cysylltu'r ddau. Beth oedd enw'r Arolygydd hefyd? Emrys Roberts. Ie. Y Sargent yn gwneud iddo ffonio hwnnw ym Mae Colwyn yn syth pan ddywedodd ei fod yn adnabod, neu i fod i adnabod, yr wyneb yn y llun. A'r Arolygydd yn pwysio arno i geisio cofio, bod y peth yn bwysig, ac yn pwysleisio ddwywaith bod y peth yn gyfrinachol, ac nad oedd neb o'r tu allan i'r Heddlu i gael achlust o fath yn y byd ar unrhyw gyfrif. Yr oedd y dyn yn gloff, meddai'r Arolygydd, ac efallai wedi bod mewn rhyw ddamwain tua phum mlynedd yn ôl.

Ond yr oedd rhywbeth arall yn poeni'r heddwlas. Yn ôl y sôn, buasai Huw Gwastad Hir yn yfed yn y dref neithiwr, ac yr oedd wedi bod yn brolio wrth bawb ei fod ef yn mynd i'w gwneud hi'n waeth ar Meredydd Parri nag a fyddai arno pe bai i mewn yn Walton. Ni cheisiai wadu mai ef a'i curodd nos Wener, a chyn diwedd y noson yr oedd yn disgrifio'n bur fanwl sut y byddai Meredydd yn ei chael y tro nesaf hefyd. Yr oedd Gareth Hughes yn benderfynol na châi Huw gyfle eto i wneud niwed i Meredydd, ond ni wyddai sut y medrai ef wneud dim i'w atal. Yr oedd yn rhaid meddwl am blan, ac yr oedd yn rhaid dweud wrth Meredydd i fod ar ei wyliadwriaeth, er bod Robin Williams Yr Wylan Wen wedi dweud wrtho ddoe ei fod ef ei hun wedi rhybuddio Meredydd dim ond rhyw hanner awr cyn i'r peth ddigwydd nos Wener. Efallai y byddai Meredydd yn barotach i gydweithredu'r tro hwn.

5

10

15

20

25

Cliriasai'r niwl o Fynydd Ceris pan ddaeth i ben yr allt, ac argoelai am brynhawn braf. Câi orffen ddau o'r gloch gyda gobaith, a châi'r gweddill o'r dydd iddo'i hun. Mynd i feddwl beth i'w wneud ar ôl gorffen yr oedd pan ddaeth i'r tro ar waelod yr allt.

A chofiodd. Cofiodd yn syth. Y ddamwain rai blynnyddoedd yn ôl ar waelod yr allt. Wrth gwrs bod y dyn yn gloff. Wrth gwrs ei fod wedi ei weld o'r blaen. Yr oedd ganddo newyddion i'r Arolygydd Roberts, ac yr oedd yr holl fanylion yn y swyddfa. 30

Neidiodd o'r fen a brasgamodd i'r tŷ. Clywai leisiau yn y gegin. Gwenodd, fe fyddai ei wraig yn fflamio; nid oedd yn hoffi pobl ddiethir ar fore Sul.

Aeth Gareth Hughes yn syth i'w swyddfa ond cyn iddo dynnu ei gôt yr oedd ei wraig i mewn ar ei ôl. 35

"Achos pwysig iawn i ti," meddai wrtho.

"Y?"

"Achos o geisio llofruddio."

Trodd yr heddwlas ei ben yn sydyn. 40

"Be?"

Gwenai ei wraig o glust i glust.

"Gladys Drofa Ganol. Mae 'na rywun wedi trïo'i lladd hi, medda hi. Dewch trwodd, Mrs. Davies," gwaeddodd i'r drws.

"Damia."

"Pobl hwyl i ti," chwarddodd ei wraig.

Daeth Gladys Davies i mewn fel Tân gwylt.

"Ble 'dach chi 'di bod? I be 'dach chi'n feddwl 'dach chi'n cael eich talu? I ista ar eich tin yn y fan 'na yn gwneud dim swydd gwaith? Tasa chi adra lle dylach chi fod, ella basa'r lle 'ma'n ddiogelach i bobol gerddad ar hyd lôn. Be 'di'r gwahaniaeth gennych chi bod 'na ddyn gwallgo hyd y ffyrdd 'ma? Be 'dach chi am ei wneud ynglŷn â'r peth? Y? Pam na 'tebwch chi rywun?" 50

"Tawn i'n cael siawns . . ." meddai'r heddwlas o dan ei wynt. Pwyntiodd at y gadair.

"Steddwch, Mrs. Davies."

"Ista? Rydych chi'n lwcus ar y naw 'mod i'n fyw i gael ista."

Estynnodd yr heddwlas bapur. Lwcus iawn, meddyliai. Gwyddai beth i'w wneud. Dim ond cymryd arno sgrifennu'n bwysig a byddai Gladys yn ddigon bodlon. Deuai cwyn bron yn fisol am rywbeth neu'i gilydd byth er pan fu ei gŵr farw. 55

I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – Eirug Wyn

4. Darllenwch y darn a gymerwyd o **I Ble'r Aeth Haul y Bore?** Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n briodol. (Ystyriwch y marcian a roddir am bob cwestiwn.)

- (a) Sut gymeriad yw Dicks?
Rhowch dystiolaeth o bob rhan o'r nofel. [5]
- (b) Eglurwch bwysigrwydd Kit Carson i blot ac adeiladwaith y nofel. [4]
- (c) Dewiswch **dair** nodwedd arddull **wahanol**. Dylech
- eu henwi;
 - dyfynnu enghraifft o'r tair nodwedd;
 - egluro eu pwrrpas a'u llwyddiant.

Gallwch gyfeirio at nodweddion megis ansoddeiriau, cyffelybiaethau / cymariaethau, trosiadau, hyd brawddegau, cyferbyniadau, deialog, sŵn geiriau ac ati. [6]

- (ch) Dychmygwch mai chi yw **Haul y Bore**.
Ysgrifennwch ei **hymson** hi wrth iddi deithio gyda'r Navaho o Ffort Defiance i'r Bosque Redondo.
Ceisiwch ysgrifennu tua dwy dudalen. [10]

[25]

Esgynnodd y ddau i'r cyfrwy a gwaeddodd Carson "Ho!" i gyfeiriad y porth. Gwichtiodd y giât anferth wrth iddi agor a dechreuodd y ddau symud tuag ati. Roedd Carson wedi gobeithio y byddai'n dal yn dywyll pan fyddai'n gadael y Ffort gyda Dicks.

"Cofia fod y gwn yma wedi'i anelu atat ti, Dicks! Un cam gwag ac fe gei di lond dy ben o blwm!"

5

Wrth duthio trwy'r porth gwaeddodd Dicks ar y gard.

"Cidnap! Dw i'n cael fy herwgipio!"

Mewn dim amser roedd y lle yn ferw. Trawodd Carson Dicks ar draws cefn ei ben gyda'i bistol nes iddo lithro yn anymwybodol dros wddf ei farch. Gafaelodd yn awenau'r ceffyl a'i dywys allan o'r Ffort. Clywodd ddryll yn tanio a theimlodd boen yn saethu trwy'i goes chwith. Edrychodd yn ei ôl. Roedd Dicks yn gorwedd yn anymwybodol ar draws gwar ei geffyl. Tywysodd ef i gyfeiriad y coed.

10

Ymheng ychydig daeth Carson at y fan lle'r roedd Chico'n aros amdano. Roedd o'n cyrcydu yno yng ngwlith y bore bach. Roedd y boen yn amlwg ar ei wyneb, a daliai ei fraich chwith ar draws ei stumog. Roedd y gwn yn y llall.

15

"Amser dial, Chico," meddai. "Ond maen nhw'n dod ar fy ôl i."

Gwenodd hwnnw arno fel hogyn drwg. Â chryn drafferth y cododd ar ei draed; dangosodd y graith ar ei law iddo. Cododd Carson yntau ei law.

Roedd Dicks yn dod ato'i hun.

Clymodd Carson y rhaff am ei wddf a'i thynnu'n dynn. Bu'n rhaid i Dicks godi. Clymodd Carson y rhaff yn sownd yn y goeden. Ceisiodd Dicks ymryddhau, ond roedd y rhaff yn rhy dynn iddo.

20

Sylweddolodd Dicks yn sydyn beth oedd yn digwydd.

"Carson! Kit? KIT!?" ymbiliodd Dicks. "Fedri di ddim gadael i hyn ddigwydd!"

Ysgydwodd yntau'i ben.	25
“Mae ’na gyfiawnder hyd yn oed mewn rhyfel, Dicks.”	
Troes ei gefn ar y Capten a sbardunodd ei geffyl i gyfeiriad y coed.	
“Carson!” gwaeddodd Dicks ar ei ôl, ond nid arhosodd Kit Carson o gwbl. Dim ond unwaith y trodd Carson yn ei ôl a hynny i weiddi ar yr Indiad.	
“Mae’r Cotiau Glas yn dod, Chico!”	30
“Carson!”	
Ond roedd ei waedd yn ofer. Gwyliai Dicks ei obaith yn pellhau oddi wrtho fel y carlamai Carson nerth carnau ei farch oddi yno. Ond beth oedd y sŵn yna? Sŵn fel taranau yn dod o bell? Sŵn carnau ceffylau!	
Tynnodd Chico forthwyl y gwn yn ei ôl, ac eisteddodd wrth fôn y goeden. Fferrodd Dicks pan glywodd y sŵn hwnnw. Roedd hi’n fore braf ac roedd yntau ar fin marw! Roedd wedi dod trwy ysgarmesau lu, a rŵan roedd yn mynd i farw dan law Indiad nad oedd eto’n hanner ei oed! Oedd o’n mynd i farw? Fedrai o wneud rhywbeth i’w achub ei hun? Tynnu sylw’r Indiad felltith yma cyn iddo fo wasgu’r triger a thanio’i ergyd?	35
Edrychodd eto ar Chico. Ceisiai hwnnw godi ar ei draed. Gallai Dicks weld ei fod yn cael trafferth. Gafaelai yn ei stumog ac roedd ei wyneb yn llanast o boen.	40
Roedd sŵn carnau'r ceffylau yn dynesu. Daeth fflach o obaith i galon Dicks. Yna anobaith. Fe fyddai'r Indiad ddiawl yma'n siŵr o orffen ei waith ysgeler cyn i'r milwyr gyrraedd. Yna roedd yr Indiad yn siarad.	
“Edrych i’r coed, Dicks, beth weli di?”	45
Cododd ei olygon a chraffodd. Drwy gornel ei lygad fe welai’r trŵp yn dynesu.	
“Beth weli di?” gofynnodd Chico drachefn.	
“Coed ...” atebodd yntau'n ffwndrus. Draw fe welodd fod arweinydd y milwyr wedi gwneud ystum ar ei ddynion i aros.	
“Beth arall?” Roedd ei lais yn floesg.	50
“Haul ...”	
“Haul y bore, Dicks,” hysiodd.	
Aeth ias i lawr asgwrn cefn Dicks, a gwyddai'n syth nad oedd dianc i fod. Yn y llannerch draw gwelai'r milwyr yn estyn eu reiffls ac yn anelu at Chico. Edrychodd ar yr haul, yna ar Chico.	
“Chiquito!” sgrechiodd y llais arno.	55
Daeth gwaedd y capten o'r llannerch draw.	
“Taniwch!”	
Ffrwydrodd ugain o reiffls y Cotiau Glas a ffrwydrodd gwn Chico.	
Diffoddodd haul y bore.	

Y STAFELL DDIRGEL – Marion Eames

5. Darllenwch y darn a gymerwyd o **Y Stafell Ddirgel**. Yna, atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n briodol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

- (a) Sut gymeriad yw Dorcas?
Rhowch dystiolaeth o bob rhan o'rnofel. [5]
- (b) Eglurwch bwysigrwydd Ellis Puw i blot ac adeiladwaith y nofel. [4]
- (c) Dewiswch **dair** nodwedd arddull **wahanol**. Dylech
- eu henwi;
 - dyfynnu enghraifft o'r tair nodwedd;
 - egluro eu pwrrpas a'u llwyddiant.

Gallwch gyfeirio at nodweddion megis ansoddeiriau, cyffelybiaethau / cymariaethau, trosiadau, hyd brawddegau, cyferbyniadau, deialog, sŵn geiriau ac ati. [6]

- (ch) Dychymygwch mai chi yw **Lisa**.
Ysgrifennwch ei **hymson** wedi iddi glywed am farwolaeth ei chwaer.
Ceisiwch ysgrifennu tua dwy dudalen. [10]

[25]

Clywai sŵn traed ar ei hôl, ond ni throdd ei phen i weld pr'un ai Shadrach ynteu rhywun arall oedd yn ei dilyn. Daliodd i redeg nes bod y gwaed yn canu yn ei chlustiau a'i choesau wedi mynd yn ddideimlad. Fe'i cafodd ei hun y tu allan i iard y Llew Aur a'r ceffylau a'r wagenni yn gyrru ymlaen heibio iddi. Roedd hi'n dechrau meddwl fod ei pherygl drosodd pan welodd hi ef yn dod heibio'r gornel o hen senedd-dy Owain Glyndŵr a thyrrfa o bobl ar ei ôl yn gweiddi ac yn chwifio ffyn.

5

'I'r Gadair Goch â hi!'

'I'r afon â'r witsh!'

'Crynnwr ydy hi! Mi gwelais hi yn y llys.'

Roedd hyn yn ddigon o brawf. Ond beth oedd angen prawf? Roedd Shadrach yn gwnstabl ac felly byddai tipyn o hwyl yn ddigon saff. Os nad oedd yr eneth yn witsh roedd hi'n Grynnwr cableddus ac yn haeddu ei chosbi. Os oedd hi'n witsh, rhaid oedd gofalu am ddiogelwch i'w plant a'u gwyr a'u gwartheg.

10

Roedd yr wynebau gwawdlyd yn awr yn bwrw i lawr arni, yn ei hamgylchynu, yn tynnu ei chap oddi am ei phen ac yn ei daflyd i'r awyr. Teimlai fysedd poeth yn crafu ei gwddw ac yn rhwygo ei gwisg lwyd yn ddarnau.

15

Cododd ei phen wrth glywed yr enw 'Crynnwr!' Yn sydyn ciliodd ei hofnau. Roedd rhywun wrth ei hochr yn gwasgu ei llaw ac yn ei chynnal. Trodd gyda dagrau o ryddhad.

'Nhad!'

Ond doedd yna yr un wyneb ffeind cyfarwydd yno. Dim ond crechwenau a lleisiau gwawdlyd yn gweiddi 'Hw, mlaen! How! How!'

20

Syrthiodd y ffyn ar ei chefn noeth, a gwthiwyd hi ymlaen i waelod y bont fawr. Roedd cynhyrfusrwydd disgwylgar y dorf i'w deimlo'n amlwg. Fuodd 'na neb yn y Gadair Goch oddi ar amser trochi Betsan Prys, ac roedd si ar led fod y gyfraith yn bwriadu rhoi terfyn ar yr hen

arferiad. Cyn bo hir fyddai dim hwyl i'w gael wrth weinyddu cyfiawnder, a dyna gyfraith gwlad yn cymell pob witsh i gael tragwyddol heol i reibio fel y mynnai. Wel, doedd y peth ddim yn gyfraith eto, ac os oedden nhw'n cael gwared â witsh y tro hwn y gwyddid ei bod hi'n Glynwr trwynsur, cableddus, gorau oll.

Daeth rhywraig â'r Gadair Goch ymlaen, hen declyn haearn wedi rhydu gydag aml drochiad yn afon Wnion. Gwthiwyd Dorcas iddi, a gollyngwyd y trosol i'w le. Cydiwyd yn y gadair, un bob ochr gan ddau ddyn: Shadrach a rhyw ddyn arall a chanddo goesau digon hir i sefyll yn y dŵr dwfn heb ei drochi. Aeth y waedd i fyny:

'Un . . . dau . . . tri . . .'

Chlywodd hi mo'r gweiddi. Roedd hi'n hedfan drwy'r awyr a'i thu mewn yn codi yn ei herbyn. Yna cwffio am ei gwynt a'r dŵr yn canu yn ei chlustiau fel rhaeadr, yn llenwi ei llygaid a'i cheg.

'I fyny â hi, hogia. Rŵan 'te. Unwaith eto. Un . . . dau . . . tri . . .'

Erbyn y trydydd trochiad roedd Dorcas wedi colli pob ymwybyddiaeth.

Bu Gwallter, y towr o'r Ganllwyd yn gwylio'r cyfan gyda dychryn a thosturi. Nid dyna'r tro cynta iddo weld y trochiad gwraig yn y Gadair Goch. Yn yr hen amser peth digon cyffredin oedd hyn, yn rhy gyffredin i ennyn teimlad o unrhyw fath. Ond oddi ar amser y Gwarcheidwad, fe aethant yn anamlach. Hwyrach fod gwg yr ustusiaid yn rhoi mwy o fin ar greulondeb y bobl, hwyrach fod geneth landeg fel hon yn ennyn teimladau mwy cyntefig yn y dynion nag a fyddai hen wrach – ni wyddai Gwallter yn iawn, ond gwyddai fod gweld y peth wedi bod mor ffiidd iddo fel pe tai rhywun wedi ei ddyrnw yng ngwaelod ei fol. Gwaeddai Shadrach ar y dyn arall i ddal ei afael yn y gadair, i roi trochiad arall iddi. Ond edrychmai hwnnw i lawr ar ben diymadferth Dorcas, ac yn sydyn mwmiodd; 'Naci, wir. Dyna ddigon, wsi.' Dyna oedd teimlad y dorf hefyd. Wedi cael eu gwala o hwyl, daeth rhyw anghysur drostynt, ac edrychasant ar Shadrach fel pe bai o'n ddyn sy'n dal yn feddw a phawb arall wedi sobri. O un i un dechreasant gilio draw nes bod neb ar ôl ond Shadrach a rhyw ddyrnaid o bobl, a Gwallter.

Roedd Shadrach wrthi'n ysgwyd corff diferol y ferch, ac yn mwmian Mam . . . Mam . . . Mam . . .

'Gad iddi fod rŵan, gyfaill,' ebe Gwallter gan roi ei law ar ysgwydd Shadrach. Ysgydwodd hwnnw ei hun fel ci newydd ddod o'r afon, ac yn sydyn aeth yn llipa. Cododd Gwallter ben Dorcas yn dyner.

'Mae hi'n dal yn fyw. Yli, mae gen i drol wrth law. Dyro help i'w chario hi, ac mi a i â hi adre.'

Fel pe bai ei ewyllys yn llaw'r llall, uffuddhaodd Shadrach. Cyn bo hir roedd ffurf lipa Dorcas yn gorwedd ar y drol, a gwnaeth Gwallter ei orau i orchuddio ei noethni â gwellt cynnes.

'Ble mae ei chartre hi? Wyddost ti?'

Ysgydwodd Shadrach ei ben, ond mwmiodd rywbeth am Brynmawr. Fel pa bai hi wedi clywed yr enw, dechreuodd Dorcas symud.

'Ellis . . . Ellis . . .'

'Dyna ti mech i,' ebe Gwallter. 'Rwyt ti'n reit ddiogel rŵan.'

Ond dechreuodd y ferch droi a throsi yn anniddig. Rhoes Gwallter ysgytwad i gyfrwy'i ferlen, a chychwynnodd ar hyd Ffos y Felin i gyfeiriad y Domen Fawr. Pan drodd i edrych ar Shadrach, roedd hwnnw'n sefyll yn stond yn edrych ar eu hôl a'r dagrau'n llifo i lawr ei ruddiau.

25

30

35

40

45

50

55

60

65

WELE’N GWAWRIO – Angharad Tomos

6. Darllenwch y darn a gymerwyd o **Wele’n Gwawrio**. Yna, atebwch y cwestiynau sy’n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu’n briodol. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)

- (a) Sut gymeriad yw Ennyd?
Rhowch dystiolaeth o bob rhan o'rnofel. [5]
- (b) Eglurwch bwysigrwydd Her i blot ac adeiladwaith y nofel. [4]
- (c) Dewiswch **dair** nodwedd arddull **wahanol**. Dylech
- eu henwi;
 - dyfynnu enghraifft o'r tair nodwedd;
 - egluro eu pwrrpas a'u llwyddiant.

Gallwch gyfeirio at nodweddion megis ansoddeiriau, cyffelybiaethau / cymariaethau, trosiadau, hyd brawddegau, cyferbyniadau, deialog, sŵn geiriau ac ati. [6]

- (ch) Dychmygwch mai chi yw rhieni Ennyd. Ysgrifennwch dudalen o **ymson y tad** a thudalen o **ymson y fam** wedi i gorff eu merch ddychwelyd i'w cartref. [10]

[25]

Hanner nos oedd y cyfarfyddiad mawr wrth droed yr Wyddfa, “A does *fïw* inni fod yn hwyr – deall?” meddwn i.

Cofiais yn sydyn ’mod i wedi anghofio nôl y wats o siop Dic Doc. Doedd Her ddim yn trafferthu efo amser, mi fyddai’n rhaid mynd â'r cloc larwm efo ni.

“Mae gen i dri phâr o ’sanau, teits a dau drowsus a thua phedwar haen ar y top. Wyt ti’n meddwl y bydda i’n ddigon cynnes?” gofynnodd Her. 5

Ro’n i wedi fy lapio nes ’mod i’n edrych ddwywaith fy maint, ac yn cael trafferth i symud fy mrechiau yn hwylus – taswn i’n teimlo fel symud fy mrechiau, hynny yw.

“Roedd o’n syniad da pan gawson ni o,” meddwn i, “ond y peth ola dwi isio’i ’neud rŵan ydi gadael y tŷ ’ma.” Roedd y tân yn dal i losgi yn y grât a’r cyfan mor gysurus. 10

“Ty’d yn dy flaen – ti’n dod allan efo fi heno ’ma os ydi o'r peth ola wnei di. Mae hi’n rhy hwyr i drefnu unrhyw adloniant arall bellach.”

“Fedrwn i ddod i Ben y Pas, ond does gen i’m digon o nerth i gerddad i’r top – wir yr,” cyfaddefais. Nid bod yn ddiog o’n i. Ro’n i wirioneddol yn teimlo fel brechdan.

“Dydi gweld y wawr yn codi yn Pen y Pas ddim cweit ’run fath. Fyddwaeth i ti edrych arno fo o dy wely ddim.” 15

Roedd hi’n deud y gwir. Gweld gwawr mileniwm newydd – faswn i byth yn cael y cyfle eto. Ond o lle’r o’n i am gael y nerth?

“Rho'r cawl yn y fflasg a thy'd i ista – mae gynnon ni amser i wylio diweddu y rhaglen yma cyn mynd,” meddai Her. 20

Wn i ddim pam ro’n i’n trafferthu dadlau efo Her o gwbl. Roedd hi wastad yn haws gwrando arni ac ufuddhau. Os oedd Her wedi penderfynu rhywbeth, dyna fyddai’n digwydd. Fy syniad i oedd o’n wreiddiol p’run bynnag. Dyna oedd waethaf. Es drwodd i’r gegin.

Bag... fflasg... menyg... cloc larwm...beth arall? Arllwysais y cawl i’r fflasg a cheisio hel Sguthan oddi ar fy nghoesau. Doeddwn i byth wedi rhoi bwyd iddi... Ro’n i’n cael trafferth cofio popeth... 25

Radag yna y digwyddodd o.

Teimlais gyllell yn cael ei gwthio drwy 'nghalon i, cael ei throi yn hegar ac yna'n saethu drwy fy mraich i a dianc.

Cefais fy nharo yn fy mhen gan y llawr.

Malodd y fflasg yn ufflon a hegloedd Sguthan am ei bywyd; ro'n i wedi 'nhrochi mewn cawl berwedig.

"Ennyd!"

Ro'n i'n cael fy ngwasgu'n belen fach a 'mhengliniau yn cyffwrdd fy nhalcen wrth i law anweledig gau yn ddwrrn amdanaf.

"Ennyd?"

Teimlais leino oer y gegin ar fy moch. Mi fedrwn weld yn glir o dan yr oergell.

Daeth i'm cof y grafanc ddychrynllyd honno ddaeth drwy ffenest tŷ Teyrnon Twrf Liant. Nos Galan oedd hi bryd hynny, a chafodd ebol ei ddwyn gerfydd ei fwng. Roedd y grafanc wedi dod i'm cyrchu inna.

"Ennyd!... Ennyd..."

Roedd llais cyfarwydd ffrind agos wrth fy ymyl.

"Ennyd, deud rwbath..." Gafaelodd y ffrind yn fy llaw a mwytho fy ngrudd a theimlwn ei hanadl wrth fy nghlust. Pwysodd ei phen ar fy mron a theimlais wallt pigog yn cosi fy ngên.

Yna gadawodd fi, a fedrwn i ddim codi ohonof fy hun. Doeddwn i erioed wedi gweld y gegin fel hyn o'r blaen. Y golau llachar yn tywynnun yn syth arnaf i, y silffoedd llestri uwch fy mhen a'r sosbenni yn crogi ar y wal.

Dychrynais wrth deimlo gwaed cynnes yn wlyb dan fy mhen ond sylwais ar ddarnau o foron a phys a phasta ynddo.

Diolch byth, daeth y ffrind clêñ yn ôl a fy lapio mewn gorchudd cynnes a mwytho fy wyneb yn annwyl eto. Dim ond iddi hi fod wrth fy ymyl ac mi fyddwn yn iawn. Ond wrth i mi fynd a dod rhwng realiti roedd hi yn llawn gofid ac yn fy llenwi efo ryw Ofn mawr. Y cwbwl fedrwn i ei glywed oedd fy enw'n cael ei adrodd drosodd a throsodd, a pharablu'r teledu yn y pellter.

Teimlais bresenoldeb arall yn fy ymyl yn stelcian yn ansicr. Pan gyffyrddodd fy llaw, roedd o'n flew cynnes ac yn Sguthan ac roedd fy myd yn gyflawn. Cefais obennydd dan fy mhen oedd yn llawer esmwythach na'r leino gwlyb ac ro'n i'n berffaith fodlon wrth fynd i gysgu.

"Fyddan nhw ddim yn hir, Ennyd."

Ond pwy sydd ar ôl i dddod? Pwy fedr fod yn eisiau a ninna'n drindod mor ddedwydd? Pam na wnaiff fy mreichiau godi imi gael eu cofleidio – Her a Sguthan a fi? Ennyd ydw i a Her ydi hi, fy ffrind gorau. Arhoswch yma, does dim eisiau mynd. Does dim eisiau neb arall ond y ni. Tydi Sguthan byth wedi cael ei swper a dwi'n siŵr fod yna rywbedh ro'n i ar ganol ei wneud.

Pan oedd popeth yn berffaith ddedwydd, daeth mellten arall a'm taro yn y canol a threiddio i'r byw. Fe'm holltodd, a chwalwyd fi'n chwilfriw.

30

35

40

45

50

55

60